

Dechrau wrth fy nhraed

Mae ysgol X yn ysgol drefol yn Abertawe. Mae gan yr ysgol 482 o blant o'r oedran o 3 lan hyd at 11. Mae'r ysgol wedi'i lleoli yn drefol ac felly mae yna nifer o gyfleoedd yn lleol ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned a rhieni a gofawyr i geisio cefnogi eu dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial.



Sut mae'r ysgol yn gweithio gyda theuluoedd cyn i blentyn dechrau yn yr ysgol?

Mae'r ysgol yn deall bod plentyn yn dechrau yn yr ysgol yn gallu bod yn amser anodd i rieni. Mae'r ysgol, felly, yn cefnogi rhieni yn yr amser cyn i'r plentyn dechrau yn yr ysgol, trwy;

- Rhoi'r cyfle i rieni mynd am daith o amgylch yr ysgol cyn i'r plentyn dechrau
- Cynnal cyfarfod croesawi i rieni'r hanner tymor cyn i'r plentyn dechrau
- Cynnal cyrsiau dysgu Cymraeg ar gyfer y rhieni neu ofalwyr
- Darparu dillad 'Nearly New', sef dillad sydd wedi cael eu hailgylchu ar gyfer teuluoedd sydd yn dioddef yn ariannol.
- Darparu llyfryn 'Dysgu gyda Sam' i rieni i baratoi'r plentyn am ddechrau yn yr ysgol.

Sut mae'r ysgol yn gweithio gyda rhieni, gofawyr a'r gymuned?

Rhieni a gofawyr

- Llyfr cyswllt fel prif ffyrdd o gysylltu'r rhieni a'r ysgol, gall unrhyw bryderon neu canmolon gael eu hysgrifennu yn y llyfr yma ac mae rhaid i'r athro/athrawes a rhiant llofnodi pob wythnos.
- Gwersi Cymraeg ar gyfer rhieni neu ofalwyr sydd yn ddiffyg yr iaith Cymraeg.
 - Boerion coffi ar gyfer rhieni. Weithiau mae ymwelwyr Professional allanol yn dod i mewn i drafod pryderon gyda rhieni mewn ffyrdd anffurfiol.
- Polisi drws agored lle mae gan rieni neu ofalwyr yr hawl i siarad gyda'r prifathro ar unrhyw adeg os mae yna bryderon.
 - CRACH.
- Nosweithiau hyfforddiant i rieni i hybu sgiliau neu ddysgu sgiliau newydd er enghraifft, sgiliau darllen, TGCh. Diogelwch ar y we.
- Gwersi coginio ar gyfer teuluoedd bregus.

Y Gymuned

- Cefnogi Elusennau, er enghraifft, banciau bwyd lleol, 'Shoebbox Appeal'
 - Gweithgareddau sy'n cynnwys rhieni a'r cymuned, er enghraifft, chwaraeon

Mae'r ysgol yn ymwybodol bod rhieni yn chwarae rôl weithredol yn addysg eu plant ac felly, mae'r staff yn cynllunio gan gynnwys y rhieni yn addysg eu plant gymaint ag sy'n bosib.

Sut mae'r ysgol yn annog teuluoedd i gefnogi'r gwahanol feysydd dysgu?

- Cynnal noson agored i rieni lle mae'r gweithdrefnau, themâu, rheolau, ymweliadau a phreswyl yn cael ei chyflwyno i'r rhieni.
- Cynnal noson targedau, fel arfer yn lonawr, ar ôl i'r plentyn fod yn yr ysgol am bedair mis.
- Cynnal wythnos 'Dewch a rhiant i'r ysgol' lle mae gan rieni'r cyfle i arsylwi eu plant yn ystod gwersi.
- Cynnal nosweithiau rhieni pob blwyddyn i drafod cynnydd ac adroddiad ei phlentyn.
- Mae llyfrau gwaith pob plentyn yn cael eu hala adref pob hanner tymor er mwyn i rieni gweld beth maen nhw wedi cyflawni.
- Defnyddio Weduk ar gyfer rhannu profiadau, lluniau ac erthyglau gyda rhieni am beth sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol.
- Cynnal sesiynau coginio ar gyfer teuluoedd bregus.

Sut mae'r ysgol yn ymgyllystu a'r gymuned i gefnogi dysgu?

Mae'r ysgol yn defnyddio'r gymuned i gefnogi'r dysgu trwy wahanol ffyrdd ar les y plant. Mae'r ysgol yn;

- Cynnal tripiâu lleol i'r gymuned trwy gydol amser yn yr ysgol, er enghraifft. mynd i'r parc neu i'r archfarchnad leol
- Gwahodd ymwelwyr addysgol i mewn i'r ysgol.
- Cymryd y plant i'r eglwys ar gyfer y cyngor Nadolig.
- Darparu profiadau go iawn yn y gymuned, er enghraifft, helpu glanhau'r traeth.
- Diwrnod sgiliau lle mae ymwelwyr allanol yn dod mewn a rhoi'r cyfle i'r plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau Newydd, er enghraifft, LC2 Abertawe a Phrifysgol Abertawe.